

Hysbysiad Archwilio - Amlosgfa Llwydcoed

Mae Rheoliad 15(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn gofyn bod Swyddog Ariannol Cyfrifol CBS Rhondda Cynon Taf yn llofnodi ac yn dyddio'r datganiad blynyddol. Mae hyn er mwyn ardystio bod y datganiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw ac yn adlewyrchiad teg o incwm a gwariant y corff am y flwyddyn yna. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Mai 2025.

[Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y datganiad blynyddol ar 27 Mai 2025, a llofnododd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor y datganiad blynyddol ar 17 Mehefin 2025].

Mae Rheoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor, y cyfeiriwyd ato uchod, bod Rhondda Cynon Taf yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad blynyddol a oedd yn destun archwiliad. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau o ran amserlen estynedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod cyfrifol, wedi adolygu ei amserlen o ganlyniad i hynny. Dydy'r archwiliad o ddatganiad o gyfrifon 2024/25 ddim wedi'i gwblhau eto a doedd barn yr archwilwyr ddim wedi'i ddarparu erbyn 31 Gorffennaf 2025. Dydy'r datganiad blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi ddim wedi bod yn destun archwiliad.